



Asesiad Effaith Cydraddoldeb

A. Cynnig

1. Teitl y cynnig

Rheoliadau Deddf Tybaco a Fêps 2026 (Hysbysiadau Oedran Gwerthu a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026

2. Beth mae eich cynnig yn anelu at ei gyflawni?

Mae'r Rheoliadau hyn yn cefnogi'r broses o roi'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg ar waith yng Nghymru a fydd yn atal cynhyrchion tybaco rhag cael eu gwerthu i unrhyw un a aned ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009 am byth. Nodau'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg yw hybu iechyd y cyhoedd, atal clefydau a diogelu iechyd a llesiant pobl Cymru drwy leihau'r defnydd o dybaco dros amser.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod y gofynion maint lleiaf ar gyfer hysbysiadau oedran gwerthu y mae'n rhaid i fanwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco yng Nghymru eu harddangos yn eu mangreoedd o 1 Ionawr 2027, ar ôl i oedran gwerthu newydd ar gyfer y cynhyrchion hyn gael ei gyflwyno fel rhan o Ddeddf Tybaco a Fêps 2026 ("Deddf 2026"). Mae hefyd yn diwygio'r gofynion ar gyfer hysbysiadau oedran gwerthu y mae'n rhaid i swmpwerthwyr tybaco, sy'n arddangos cynhyrchion tybaco, eu harddangos wrth fynedfa ardaloedd tybaco yn eu mangreoedd. Yn olaf, mae'n gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sy'n cyfyngu ar arddangos cynhyrchion tybaco a rhestrau prisiau mewn mangreoedd yng Nghymru, er mwyn adlewyrchu'r oedran gwerthu newydd ar gyfer cynhyrchion tybaco.

Nod y gofyniad i arddangos hysbysiad oedran gwerthu yw helpu i godi ymwybyddiaeth o gyfyngiadau'r oedran gwerthu ar gyfer cynhyrchion tybaco a hyrwyddo cydymffurfedd. Bydd y Rheoliadau yn sicrhau bod yr hysbysiadau a'r testun a ddangosir arnynt yn ddigon o faint i fod yn hollol weladwy i gwsmeriaid a manwerthwyr, a'i bod hefyd yn ymarferol i fanwerthwyr eu harddangos.

3. Pryd y dechreuodd y gwaith ar y cynnig?

Ebrill 26

4. Ar ba sefydliadau, grwpiau neu gymunedau y mae'n debygol o effeithio?

Manwerthwyr tybaco a swmpwerthwyr tybaco

Y cyhoedd

Awdurdodau lleol

Swyddogion safonau masnach

Y trydydd sector

Oedran

1. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

Bydd y Rheoliadau yn cefnogi'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg a sefydlwyd yn Neddf 2026 drwy ddarparu gofynion newydd ynglŷn ag arwyddion i fanwerthwyr tybaco a swmpwerthwyr tybaco yng Nghymru. Bydd y Rheoliadau yn effeithio ar unrhyw un a aned ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009 ac yn ei gwneud yn glir ei bod yn anghyfreithlon gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un a aned ar neu ar ôl y dyddiad hwn.

Dros y 30 mlynedd diwethaf, mae llywodraethau wedi cymryd camau pendant i leihau cyfraddau smygu, gan achub miloedd o fywydau o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, mae tybaco yn parhau i fod yn brif achos afiechyd, anabledd a marwolaethau y gallir eu hatal, ac yn gyfrifol am [fwy na](#) 3,800 o farwolaethau y flwyddyn yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y gallir priodoli 10.7% ar gyfartaledd o'r holl farwolaethau yng Nghymru ymhlith pobl 35 oed a throsodd yn ystod y blynyddoedd hyn i smygu. [Nid oes unrhyw gynnyrch arall i ddefnyddwyr yn lladd hyd at ddwy ran o dair o'i ddefnyddwyr](#). Canfu'r [adolygiad annibynnol yn 2022](#), os na fyddwn yn gweithredu, y bydd bron hanner miliwn yn fwy o bobl yn marw o ganlyniad i smygu erbyn 2030.

... pan gânt eu defnyddio yn union fel y'i hargymhellir gan y gwneuthurwr, sigarêts yw'r unig gynnyrch cyfreithlon i ddefnyddwyr a fydd yn lladd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr...

The Khan review: making smoking obsolete (2022)

Mae smygu yn achosi niwed drwy gydol bywydau pobl. Mae'n [ffactor risg mawr ar gyfer canlyniadau gwael i famau a babanod](#), gan gynyddu'r risg o farw-enedigaethau yn sylweddol a gall achosi asthma mewn plant. Mae'n arwain at sefyllfa lle mae angen gofal a chymorth ar bobl ddegawd yn gynharach ar gyfartaledd [nag y bydd wedi digwydd fel arall](#), yn aml tra byddant yn dal i fod o oedran gweithio. [Mae smygwyr yn colli deng mlynedd o ddisgwyliad oes ar gyfartaledd](#), neu tua blwyddyn am bob 4 blynedd o smygu.

Mae smygu yn achosi tua 1 o bob 4 o holl farwolaethau canser y DU ac mae'n gyfrifol am y [mwyafrif helaeth o achosion](#) o ganser yr ysgyfaint. Mae smygu hefyd yn un o'r ffactorau mwyaf sy'n achosi clefyd y galon, strôc a methiant y galon yn gynharach [ac mae'n cynyddu'r risg o ddementia ymhlith yr henoed](#). Mae pobl nad ydynt yn smygu yn cael eu hamlygu i fwg ail-law (smygu goddefol) sy'n golygu, er nad ydynt yn dewis hynny, fod llawer yn cael niwed - yn enwedig plant, menywod beichiog, a'u babanod.

Mae epidemig tybaco yn un o'r peryglon iechyd cyhoeddus mwyaf y mae'r byd erioed wedi'i wynebu... Mae pob math o ddefnyddio tybaco yn niweidiol, ac nid oes lefel ddiogel o amlygiad i dybaco.

Sefydliad Iechyd y Byd, 2020)

O ganlyniad, mae smygu yn rhoi pwysau sylweddol ar y GIG. Dros y cyfnod 2020-22, amcangyfrifir bod [17,195](#) o dderbyniadau i'r ysbyty bob blwyddyn yng Nghymru o ganlyniad i smygu. Mae hyn yn golygu y gallir priodoli 3.4% ar

gyfartaledd o'r holl farwolaethau yng Nghymru ymhlith pobl 35 oed a hŷn yn ystod y blynyddoedd hyn i smygu.

Amcangyfrifir mai cyfanswm costau smygu yng Nghymru yw [£1.56 biliwn bob blwyddyn](#). Mae cost flynyddol smygu yn cyfateb i £499 fesul person, £622 fesul oedolyn, a £4,661 fesul oedolyn sy'n smygu yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys colli cynhyrchiant gwerth £670 miliwn y flwyddyn, drwy golledion enillion sy'n gysylltiedig â smygu, diweithdra a marw'n gynnar. Mae'r [gost o £650 miliwn](#) am drin a chefnogi smygwyr sy'n profi salwch ac anabledd hirdymor yn cyfrif am 5% o gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol Cymru.

Hefyd, ceir cysylltiad agos rhwng smygu, a'r niwed y mae'n ei achosi, ac amddifadedd. Mae'r rhai sy'n [ddi-waith, ar incwm isel neu'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn llawer mwy tebygol o smygu na'r boblogaeth gyffredinol](#). Mae cyfraddau marwolaethau y gellir eu priodoli i smygu [2.1 gwaith yn uwch](#) yn yr awdurdodau lleol mwyaf difreintiedig nag yn y rhai lleiaf difreintiedig.

Mae'r rhan fwyaf o smygwyr yn ymwybodol o'r risgiau hyn ac, o ganlyniad, maent am roi'r gorau iddi - ond mae natur gaethiwus sigarêts yn golygu na allant wneud hynny. Mae'r mwyafrif o smygwyr yn dechrau yn ystod eu hieuenctid ac mae [mwy na 4 o bob 5 smygwr yn dechrau cyn 20 oed](#) ac yna maent yn gaeth am oes. [Ni fyddai tri chwarter y smygwyr presennol byth wedi dechrau pe baent yn cael y dewis eto](#). Yn gwyno, mae'n llawer haws atal pobl rhag dechrau smygu yn y lle cyntaf. Felly, nod y polisi cenhedlaeth ddi-fwg, a gefnogir gan y Rheoliadau hyn, yw diogelu plant rhag y problemau iechyd niferus y mae smygu yn eu hachosi, gan gynnwys canser a chlefyd cardiofasgwlaidd, a helpu cenedlaethau'r dyfodol i fyw bywydau hwy ac iachach. Mae'r polisi yn ei gwneud yn anghyfreithlon gwerthu tybaco i unrhyw un a aned ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009, felly wrth i'r grŵp hwn fynd yn hŷn ni ellir byth werthu tybaco iddynt yn gyfreithlon, gan eu hachub rhag bywyd o gaethiwed a niweidiau iechyd a achosir gan dybaco. Bydd hyn yn atal cenedlaethau'r dyfodol rhag dechrau smygu, gan nad oes oedran diogel i smygu.

Mae cefnogaeth gref o blaid gweithredu ymhlith y cyhoedd: [Mae 77% o oedolion yn cefnogi camau gweithredu gan y llywodraeth i gyfyngu ar smygu](#) neu'n credu y dylai'r llywodraeth wneud mwy.

2. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nac oes. Mae'r bwriad polisi yn glir ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

3. Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Mae ymgynghoriad manwl wedi cael ei gynnal ar gynigion polisi. Rhwng mis Hydref 2023 a mis Rhagfyr 2023, cynhaliodd llywodraeth y DU ar y pryd [ymgynghoriad a oedd yn agored i'r DU gyfan](#) ar gynigion polisi i'w cynnwys yn y Bil Tybaco a Fêps. Cafwyd 27,921 o ymatebion, gan gynnwys 896 gan sefydliadau a 27,025 gan unigolion fel unigolion ac yn broffesiynol. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys y newidiadau i oedran gwerthu cynhyrchion tybaco; Roedd 63.2% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, roedd 32.2% yn anghytuno a dywedodd 4.6% nad oeddent yn gwybod. Roedd hefyd yn cynnwys cwestiwn ynghylch a oedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai angen diweddarau hysbysiadau oedran gwerthu mewn mangreoedd manwerthu i adlewyrchu'r

oedran gwerthu newydd, ac roedd 71.8% o'r ymatebwyr yn cytuno, roedd 22.6% yn anghytuno a dywedodd 5.6% nad oeddent yn gwybod. Er nad oedd yr ymgynghoriad yn gofyn yn benodol am faint na golwg yr hysbysiadau, gwnaeth nifer bach o ymatebwyr sylwadau a oedd yn berthnasol i'r materion hyn. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion a oedd yn awgrymu y dylem geisio efelychu gofynion maint blaenorol ac y dylai'r arwyddion fod mewn ffont mawr ac yn hawdd eu gweld, yn ogystal ag eraill yn awgrymu bod A3 yn rhy fawr.

Aeth [y Bil Tybaco a Fêps](#) yn ei flaen drwy Senedd y DU a bu'n destun craffu manwl gan ASau, yr Arglwyddi a Rhanddeiliaid. Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2026.

Yn ein barn ni, nid oes angen cynnal ymgynghoriad pellach mewn perthynas â manylebau'r hysbysiadau na'r gofynion ar gyfer swmpwerthwyr tybaco, o ystyried yr ymgynghoriadau sydd eisoes wedi cael eu cynnal. Yn yr un modd, nid ystyriwyd bod hyn yn angenrheidiol ar gyfer y darpariaethau mewn perthynas ag arddangos cynhyrchion a phrisiau, sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol o ganlyniad i'r oedran gwerthu newydd, rydym eisoes wedi ymgynghori yn ei gylch. Bydd effaith ychwanegol y rhain yn fach iawn. Lansiwyd ymgynghoriad ar wahân, sy'n cynnwys cynigion ar arddangos cynhyrchion sydd o fewn cwmpas Deddf 2026, ar [10 Gorffennaf 2026](#). Fel rhan o hyn, mae cwestiynau ynghylch dileu esemptiadau rhag cyfyngiadau arddangos ar gyfer swmpwerthwyr tybaco wedi'u cynnwys. Os caiff y cynigion hyn eu gweithredu, dylid gwneud diwygiadau pellach i [Reoliadau Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco \(Arddangos Prisiau\) \(Cymru\) 2012](#) a all fod yn ofynnol.

4. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Ceir tystiolaeth gryf iawn ynglŷn â'r niwed mae smygu yn ei achosi a manteision deddfwriaeth i atal gwerthu tybaco. Mae'r dystiolaeth a ddatblygwyd yn ystod yr ymgynghoriad a hynt y Bil drwy Senedd y DU wedi llywio'r Offeryn Statudol a'i gynnwys.

5. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Mae'r Rheoliadau yn cefnogi'r broses o roi'r polisi cynhyrchion tybaco ar waith yng Nghymru a fydd yn atal cynhyrchion tybaco rhag cael eu gwerthu i unrhyw un a aned ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009 am byth.

Cyflwynodd Deddf 2026 ofyniad i fanwerthwyr tybaco yng Nghymru arddangos hysbysiad sy'n cynnwys y ddau ddatganiad canlynol—

“It is illegal to sell tobacco products to anyone born on or after 1 January 2009”

“Mae'n anghyfreithlon gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009”.

mewn lle amlwg sy'n weladwy mewn mannau gwerthu.

Daw hyn i rym ar yr un pryd â'r oedran gwerthu newydd ac mae'n disodli'r gofyniad blaenorol ynglŷn â hysbysiadau oedran gwerthu, a oedd yn adlewyrchu'r

hen drosedd o werthu i unrhyw un o dan 18 oed. Nod y gofyniad i arddangos hysbysiad oedran gwerthu yw helpu i godi ymwybyddiaeth o gyfyngiadau'r oedran gwerthu a hyrwyddo cydymffurfedd. Mae'r Rheoliadau yn nodi'r maint lleiaf ar gyfer yr hysbysiadau hyn, a'r maint lleiaf ar gyfer y datganiad ar yr hysbysiad, ar gyfer mangreoedd yng Nghymru, er mwyn cefnogi'r broses o roi'r polisi ar waith yn effeithiol o 1 Ionawr 2027. Ei nod yw sicrhau bod yr hysbysiadau a'r testun a ddangosir arnynt yn ddigon mawr i fod yn hollol weladwy i gwsmeriaid a manwerthwyr, a'i bod hefyd yn ymarferol i fanwerthwyr eu harddangos.

Bydd y Rheoliadau yn sicrhau y gall y cyhoedd weld yr hysbysiad a chael gwybod am ofynion yr oedran gwerthu newydd.

Bydd y Rheoliadau yn hybu iechyd y cyhoedd, yn atal clefydau ac yn diogelu iechyd a llesiant plant a phobl ifanc. Pe bai llai o bobl yn dechrau smygu byddai'r manteision iechyd yn arwain at y canlynol:

- Costau is i'r GIG a gofal cymdeithasol
- Cynhyrchiant/enillion uwch, costau is, a llai o afiechyd i'r rhai a allai fel arall fod wedi dechrau smygu a datblygu cyflyrau iechyd
- Llai o salwch ymhlith oedolion a phlant a achosir gan fwg ail-law gan gynnwys costau triniaeth y gellir eu hosgoi
- Lleihad mewn anghydraddoldebau iechyd
- Gwariant a chyfanswm elw uwch mewn sectorau eraill o'r economi wrth i ddarpar smygwyr ddargyfeirio eu gwariant.

6. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Mae'r broses o roi Deddf 2026 ar waith wedi dechrau ac mae'n cael ei hategu gan [ddogfennau](#) canllaw manwl, gan gynnwys [templed o arwydd](#) ac ymgyrch gyfathrebu i sicrhau bod pob rhanddeiliad yn ymwybodol o'r darpariaethau ynglŷn â chenhedlaeth ddi-fwg a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2026. Bydd y gweithgareddau hyn yn sicrhau bod y polisi yn cael yr effeithiau mwyaf buddiol posibl.

Anabledd

7. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

Wrth ddatblygu'r gofynion ynglŷn ag arwyddion, ystyriwyd canllawiau gan y [Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol i Bobl Ddall](#) ar greu adnoddau hygyrch a chydymffurfiwyd â nhw.

8. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Dim

9. Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Mae ymgysylltu manwl â rhanddeiliaid fel y'i nodir yn adran 3 wedi digwydd er mwyn llywio'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg a'r Rheoliadau sy'n cefnogi'r polisi.

10. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Defnyddiwyd tystiolaeth y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol i Bobl Ddall wrth ddylunio'r arwydd er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i'r rhai â cholled golwg.

Mae'r dystiolaeth a ddatblygwyd yn ystod yr ymgynghoriad a hynt y Bil drwy Senedd y DU wedi llywio'r Rheoliadau a'u cynnwys.

11. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Ceir manylion yn Adran 5. Mae'r Rheoliadau yn rhoi manylion am ofynion yr hysbysiad oedran gwerthu sydd wedi'i lunio i sicrhau bod yr hysbysiad a'r testun a ddangosir arno yn ddigon mawr i fod yn hollol weladwy i bob cwsmer a manwerthwr, ac hefyd yn dal i fod yn ymarferol i fanwerthwyr ei arddangos. Felly, bydd y Rheoliadau yn sicrhau y gall y cyhoedd weld yr hysbysiad a chael gwybod am y gofynion ynglŷn â'r oedran gwerthu newydd.

12. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Fel y'u nodir yn Adran 6.

Hil

13. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

Tystiolaeth gryf fel y'i nodir yn Adran 1. Dim effaith ar hil – mae'r Rheoliadau yn gymwys i bawb yn yr un modd.

14. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nac oes

15. Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Mae ymgysylltu manwl â rhanddeiliaid fel y'i nodir yn adran 3 wedi digwydd er mwyn llywio'r polisi cenedlaeth ddi-fwg a'r Rheoliadau hyn sy'n cefnogi'r polisi.

16. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae'r dystiolaeth a ddatblygwyd yn ystod yr ymgynghoriad a hynt y Bil drwy Senedd y DU wedi llywio cynnwys y Rheoliadau.

17. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Ceir manylion yn Adran 5. Mae'r Rheoliadau yn rhoi manylion am ofynion yr hysbysiad oedran gwerthu sydd wedi'i lunio i sicrhau bod yr hysbysiad a'r testun a ddangosir arno yn ddigon o faint i fod yn hollol weladwy i bob cwsmer a manwerthwr, ac hefyd yn dal i fod yn ymarferol i fanwerthwyr ei arddangos. Felly, bydd y Rheoliadau yn sicrhau y gall y cyhoedd weld yr hysbysiad a chael gwybod am y gofynion ynglŷn â'r oedran gwerthu newydd.

18. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Fel y'i nodir yn Adran 6.

Crefydd, Cred a Diffyg Cred

19. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

Tystiolaeth gryf fel y'i nodir yn Adran 1. Dim effaith ar grefydd, cred na diffyg cred – mae'r Rheoliadau yn gymwys i bawb yn yr un modd.

20. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nac oes

21. Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Mae ymgysylltu manwl â rhanddeiliaid fel y'i nodir yn Adran 3 wedi digwydd er mwyn llywio'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg a chynnwys y Rheoliadau sy'n cefnogi'r polisi.

22. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae'r dystiolaeth a ddatblygwyd yn ystod yr ymgynghoriad a hynt y Bil drwy Senedd y DU wedi llywio cynnwys y Rheoliadau.

23. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Ceir manylion yn Adran 5. Mae'r Rheoliadau yn rhoi manylion am ofynion yr hysbysiad oedran gwerthu sydd wedi'i lunio i sicrhau bod yr hysbysiad a'r testun a ddangosir arno yn ddigon o faint i fod yn hollol weladwy i bob cwsmer a manwerthwr, ac hefyd yn dal i fod yn ymarferol i fanwerthwyr ei arddangos. Felly, bydd y Rheoliadau yn sicrhau y gall y cyhoedd weld yr hysbysiad a chael gwybod am y gofynion ynglŷn â'r oedran gwerthu newydd.

24. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Fel y'u nodir yn Adran 6.

Rhyw

25. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

Tystiolaeth gryf fel y'i nodir yn Adran 1. Dim effaith ar ryw – mae'r Rheoliadau yn gyfartal i bawb yn yr un modd.

26. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nac oes

27. Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Mae ymgysylltu manwl â rhanddeiliaid fel y'i nodir yn Adran 3 wedi digwydd er mwyn llywio'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg a'r Rheoliadau hyn sy'n cefnogi'r polisi.

28. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae'r dystiolaeth a ddatblygwyd yn ystod yr ymgynghoriad a hynt y Bil drwy Senedd y DU wedi llywio'r Rheoliadau a'u cynnwys.

29. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Ceir manylion yn Adran 5. Mae'r Rheoliadau yn rhoi manylion am ofynion yr hysbysiad oedran gwerthu sydd wedi'i lunio i sicrhau bod yr hysbysiad a'r testun a ddangosir arno yn ddigon o faint i fod yn hollol weladwy i bob cwsmer a manwerthwr, ac hefyd yn dal i fod yn ymarferol i fanwerthwyr ei arddangos. Felly, bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau y gall y cyhoedd weld yr hysbysiad a chael gwybod am ofynion yr oedran gwerthu newydd.

30. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol

Fel y'u nodir yn Adran 6

Ailbennu Rhywedd

31. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

Tystiolaeth gryf fel y'i nodir yn Adran 1. Dim effaith ar ailbennu rhywedd – mae'r Rheoliadau yn gymwys i bawb yn yr un modd.

32. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nac oes.

33. Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Mae ymgysylltu manwl â rhanddeiliaid fel y'i nodir yn Adran 3 wedi digwydd er mwyn llywio'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg a chynnwys y Rheoliadau hyn sy'n cefnogi'r polisi.

34. Sut mae dystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae'r dystiolaeth a ddatblygwyd yn ystod yr ymgynghoriad a hynt y Bil drwy Senedd y DU wedi llywio cynnwys y Rheoliadau.

35. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Ceir manylion yn Adran 5. Mae'r Rheoliadau yn rhoi manylion am ofynion yr hysbysiad oedran gwerthu sydd wedi'i lunio i sicrhau bod yr hysbysiad a'r testun a ddangosir arno yn ddigon o faint i fod yn hollol weladwy i bob cwsmer a manwerthwr, ac hefyd yn dal i fod yn ymarferol i fanwerthwyr ei arddangos. Felly, bydd y Rheoliadau yn sicrhau y gall y cyhoedd weld yr hysbysiad a chael gwybod am y gofynion ynglŷn â'r oedran gwerthu newydd.

36. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Fel y'u nodir yn Adran 6

Cyfeiriadedd Rhywiol

37. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

Tystiolaeth gryf fel y'i nodir yn Adran 1. Dim effaith ar gyfeiriadedd rhywiol – mae'r Rheoliadau yn gymwys i bawb yn yr un modd.

38. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nac oes

39. Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Mae ymgysylltu manwl â rhanddeiliaid fel y'i nodir yn adran 3 wedi digwydd er mwyn llywio'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg a'r Rheoliadau hyn sy'n cefnogi'r polisi.

40. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae'r dystiolaeth a ddatblygwyd yn ystod yr ymgynghoriad a hynt y Bil drwy Senedd y DU wedi llywio cynnwys y Rheoliadau.

41. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Ceir manylion yn Adran 5. Mae'r Rheoliadau yn rhoi manylion am ofynion yr hysbysiad oedran gwerthu sydd wedi'i lunio i sicrhau bod yr hysbysiad a'r testun a ddangosir arno yn ddigon o faint i fod yn hollol weladwy i bob cwsmer a manwerthwr, ac hefyd yn dal i fod yn ymarferol i fanwerthwyr ei arddangos. Felly, bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau y gall y cyhoedd weld yr hysbysiad a chael gwybod am ofynion yr oedran gwerthu newydd.

42. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Fel y'u nodir yn Adran 6

Beichiogrwydd a Mamolaeth

43. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

Tystiolaeth gryf fel y'i nodir yn Adran 1. Dim effaith ar feichiogrwydd – mae'r Rheoliadau yn gymwys i bawb yn yr un modd.

44. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nac ydy

45. Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Mae ymgysylltu manwl â rhanddeiliaid fel y'i nodir yn Adran 3 wedi digwydd er mwyn llywio'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg a chynnwys y Rheoliadau hyn sy'n cefnogi'r polisi.

46. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae'r dystiolaeth a ddatblygwyd yn ystod yr ymgynghoriad a hynt y Bil drwy Senedd y DU wedi llywio cynnwys y Rheoliadau.

47. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Ceir manylion yn Adran 5. O ran smygu yn ystod beichiogrwydd, mae smygu yn risg sylweddol o ran canlyniadau iechyd gwael sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd. [Cofnodwyd bod 12% o fenywod beichiog yn smygwyr yn eu hasesiad cychwynnol yn 2025 yng Nghymru](#), a gwyddys bod smygu yn cynyddu'r risg o gymhlethdodau

yn ystod beichiogrwydd a thu hwnt megis pwysau geni isel, genedigaeth gynamserol a marw-enedigaeth. Roedd cyfraddau smygu hefyd ar eu huchaf ymhlith mamau iau a mamau o gefndiroedd ethnig Gwyn a Chymysg. Mae lleihau nifer y bobl sy'n smygu drwy'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gyfraddau smygu yn ystod beichiogrwydd yng Nghymru ac ieuchyd babanod a phlant.

Mae'r Rheoliadau yn rhoi manylion am ofynion yr hysbysiad oedran gwerthu sydd wedi'i lunio i sicrhau bod yr hysbysiad a'r testun a ddangosir arno yn ddigon o faint i fod yn hollol weladwy i bob cwsmer a manwerthwr, ac hefyd yn dal i fod yn ymarferol i fanwerthwyr ei arddangos. Felly, bydd y Rheoliadau yn sicrhau y gall y cyhoedd weld yr hysbysiad a chael gwybod am y gofynion ynglŷn â'r oedran gwerthu newydd.

48. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Fel y'u nodir yn Adran 6.

Priodas a Phartneriaeth Sifil

49. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw ei ffynhonnell? Dylid cynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.

Tystiolaeth gryf fel y'i nodir yn Adran 1. Dim effaith ar briodas a phartneriaeth sifil – mae'r Rheoliadau'n berthnasol i bawb yn gyfartal.

50. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?

Nac ydy

51. Gyda phwy rydych chi wedi ymgysylltu, pam a sut?

Mae ymgysylltu manwl â rhanddeiliaid fel y'i nodir yn adran 3 wedi digwydd er mwyn llywio'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg a'r Rheoliadau hyn sy'n cefnogi'r polisi.

52. Sut mae dystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?

Mae'r dystiolaeth a ddatblygwyd yn ystod yr ymgynghoriad a hynt y Bil drwy Senedd y DU wedi llywio cynnwys y Rheoliadau.

53. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?

Ceir manylion yn Adran 5. Mae'r Rheoliadau yn rhoi manylion am ofynion yr hysbysiad oedran gwerthu sydd wedi'i lunio i sicrhau bod yr hysbysiad a'r testun a ddangosir arno yn ddigon o faint i fod yn hollol weladwy i bob cwsmer a manwerthwr, ac hefyd yn dal i fod yn ymarferol i fanwerthwyr ei arddangos. Felly, bydd y Rheoliadau yn sicrhau y gall y cyhoedd weld yr hysbysiad a chael gwybod am y gofynion ynglŷn â'r oedran gwerthu newydd.

54. Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i wella effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Fel y'u nodir yn Adran 6.

C. Cyhoeddi a Monitro

1. A yw'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn yn barod i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru?

Yes

2. Os na allwch gyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, esboniwch pam.

Dd/B.

3. A yw'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn yn ddiweddariad ar fersiwn a gyhoeddwyd yn flaenorol?

No

4. Sut y byddwch yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd ar y materion cydraddoldeb a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â sefydliadau manwerthu a thimau gorfodi i sicrhau bod y gofynion yn y Rheoliadau yn effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi gweithrediad y Ddeddf ehangach a'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg yng Nghymru ac mae wedi sefydlu grŵp cynghori i gefnogi'r Rheoliadau hyn a darpariaethau'r Ddeddf yn fwy cyffredinol.

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ar y defnydd o dybaco ymhlith plant ac oedolion drwy [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) a'r [Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion](#) a fydd yn cael eu hadolygu'n flynyddol i fonitro gweithrediad y polisi cenhedlaeth ddi-fwg a'r Rheoliadau hyn, yn enwedig o ran nifer y plant sy'n dechrau smygu a smygu fel y mae'n ymwneud â'r ffactorau a aseswyd uchod.

O ran smygu yn ystod beichiogrwydd, cofnodwyd bod 12% o fenywod beichiog yn smygwyr yn eu [hasesiad cychwynnol yn 2025](#), y gwyddys ei fod yn cynyddu'r risg o gymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd a thu hwnt fel pwysau geni isel, genedigaeth gynamserol a marw-enedigaeth. Bydd cyfraddau smygu yn ystod beichiogrwydd yn parhau i gael eu monitro i ddangos effaith y polisi cenhedlaeth ddi-fwg a'r Rheoliadau hyn.

Disgwylir hefyd y bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu monitro drwy werthusiad ehangach o'r Ddeddf, o ystyried bod y Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol o ganlyniad i'r Ddeddf honno. Mae adran 165 o'r Ddeddf honno yn creu gofyniad statudol i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnal adolygiad o'i gweithrediad o fewn 4-7 mlynedd i'w phasio. Rydym yn disgwyl y bydd yr adolygiad hwn yn casglu unrhyw ganfyddiadau perthnasol fel rhan o'r ystyriaeth o weithrediad y darpariaethau oedran gwerthu a gyflwynwyd gan y Ddeddf.

Mae [canllawiau](#) wedi cael eu cyhoeddi ar y darpariaethau ynglŷn â'r oedran gwerthu newydd ar gyfer cynhyrchion tybaco, cynhyrchion smygu llysieuol a phapurau sigaréts. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar y gofynion arfaethedig ar gyfer hysbysiadau oedran gwerthu a'r newid arfaethedig i'r gofyniad i'w harddangos, a bydd cyfeiriadau at y rhain yn dal i fod yn amodol ar

gymeradwyaeth y Senedd. Caiff y canllawiau eu diweddarau i adlewyrchu'r sefyllfa derfynol ar ôl i'r Senedd graffu ar y Rheoliadau hyn.

D. Awdurdodiad

Datganiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr / Uwch-swyddog Cyfrifol:

Rwy'n fodlon bod effaith y cynnig wedi'i hasesu a'i chofnodi'n briodol yn unol â'r canllawiau, a bod y gofyniad i'w gyhoeddi wedi'i ystyried yn briodol.

Llofnod: Ed Wilson

Adran: Y Grŵp Iechyd, Gofal ac Atal

Dyddiad: 8 Hydref 2026

